# Cynllun Hydro Cymunedol Dolwyddelan

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyngor cymuned wedi mynd ati i ymgeisio am grantiau a oedd ar gael i gyflawni astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynlluniau hydro cymunedol. Fe wnaethom benodi ymgynghorydd o 'Cymru.Hydro' i gyflawni astudiaeth ddichonoldeb a llunio cynllun ar gyfer y cynllun hydro. Mae wedi comisiynu arolygon archaeoleg, ecoleg, topograffig ac am goed. Rydym yn aros am yr adroddiad geomorffoleg ar hyn o bryd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, caiff trwydded tynnu ei anfon at Cyfoeth Naturiol Cymru a chais cynllunio ei hanfon at Barc Cenedlaethol Eryri.

Hyd yma, mae'r cyngor cymuned wedi cyflawni hyd eithaf eu gallu ar y prosiect. Bydd yr holl ganiatâd mewn lle yn y 6-9 mis nesaf. Gan fwrw golwg tua'r dyfodol, bydd angen sefydlu mudiad i fwrw iddi gyda'r prosiect at y cam adeiladu a gweithredol, ymhen yr amserlen 6-9 mis hon. Hefyd bydd yn rhaid i'r mudiad ymgeisio am grantiau o amryw o wahanol gronfeydd ar gyfer y gwaith adeiladu.

**Opsiwn 1:** Gallai'r gymuned ddewis sefydlu Cwmni Budd Cymunedol (CBC)

Mae CBC yn fenter gymdeithasol reoledig sy'n ail-fuddsoddi elw er budd y gymuned. Gallai'r gymuned sefydlu a defnyddio model CBC i weithredu'r prosiect hydro wrth sicrhau bod incwm dros ben yn cefnogi gweithgareddau cymunedol.

**Manteision:**

✅ Sicrhau bod elw dros ben o fudd i'r gymuned.

✅ Mwy deniadol i arianwyr grantiau.

✅ Gallai fasnachu'n rhydd wrth gynnal nod cymdeithasol.

**Anfanteision:**

❌ Gallu cyfyngedig i ddosbarthu elw'n uniongyrchol i'r Gymuned.

❌ Mwy o oruchwyliaeth ac adrodd rheoleiddiol.

Mae'r opsiwn hwn yn fanteisiol i'r gymuned sydd eisiau endid cyfreithiol ar wahân wrth sicrhau budd cymunedol.

-----

**Opsiwn 2: Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)**

Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol yn strwythur elusennol sy'n sicrhau statws eithriedig rhag treth, sy'n golygu ei fod yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau sydd â nod sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd a'r gymuned.

**Manteision:**

✅ Gall fod wedi'i eithrio rhag treth gorfforaeth.

✅ Trefn llywodraethu cryf a hygrededd ar gyfer ceisiadau am gyllid.